Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 8 Hydref 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | W G Lewis | S Pritchard |
| W G Thomas | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Mark Child – Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda
Y Cynghorydd Jennifer Raynor – Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Simon Jones | Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Nick Williams | Cyfarwyddwr Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: E T Kirchner a G J Tanner

---

**56 Derbyn Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

D Anderson-Thomas – personol – Cofnod Rhif 60 – Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

Y Cynghorydd P M Black – personol – Cofnod Rhif 60 – Llywodraethwr yn Ysgol Pentrehafod.

Y Cynghorydd C A Holley – personol – Cofnod Rhif 60 – Llywodraethwr yn Ysgol Pentrehafod.

Y Cynghorydd P R Hood-Williams – personol – Cofnod Rhif 60 – Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Crwys ac yn Ysgol Gynradd Cilâ.

Y Cynghorydd J W Jones - personol - Cofnodion Rhif 60 a 65 – Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun yr Olchfa ac aelod o deulu yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Hendrefoilan.

Y Cynghorydd M H Jones – personol – Cofnodion Rhif 60 a 65 – Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun yr Olchfa a Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Hendrefoilan.

Y Cynghorydd P K Jones – personol – Cofnod Rhif 60 – Llywodraethwr yn Ysgol yr Esgob Gore.

A Roberts – personol – Cofnod Rhif 60 – Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt.

## 57 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 58 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 fel cofnod cywir.

## 59 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Cynigiodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol gyngor i'r pwyllgor ynghylch ymatebion i'r materion sy’n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Clywodd y pwyllgor gan sawl aelod o'r cyhoedd a holodd gwestiynau am Eitem 6 (Cofnod 60) a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Mynegwyd pryder am y cynnydd yn y llygryddion aer ger ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â’r cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc sy’n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Os bydd yr ysgol honno yn cau bydd rhaid i blant deithio ymhellach i gyrraedd yr ysgol, gan arwain at gynnydd mewn traffig yn yr ardal.

  Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau fod y cynnig i gau'r ysgolion yn destun ymgynghoriad, ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i bryderon fel rhan o'r broses ymgynghori. Mynegodd y bydd y Cabinet yn

derbyn adroddiad am yr ymateb i'r ymgynghoriad cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, ac anogodd aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno ymatebion i'r Adran Addysg wrth i'r ymgynghoriad barhau i fynd rhagddo.

- Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â'r gwaith craffu ar y broses o gau'r ysgolion a'r ymgynghoriad ac a fyddai'n bosib gweld yr adroddiad am benderfyniad y Cabinet cyn cyfarfod y Cabinet.

  Mynegodd Aelod y Cabinet y byddai adroddiad y Cabinet yn cael ei gyhoeddi o leiaf bum niwrnod gwaith cyn cyfarfod y Cabinet. Nodwyd hefyd y byddai'r holl ymatebion a sylwadau a roddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Mynegodd y byddai adroddiad y Cabinet ar gael ar gyfer craffu cyn penderfynu.

  Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai unrhyw graffu cyn penderfynu nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Mynegodd y byddai trefniadau ar gyfer craffu cyn penderfynu'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

- Holwyd a fyddai'r Cabinet yn cynnal ymweliadau safle llawn o'r ysgolion y cynigir eu cau er mwyn asesu effaith hyn yn llawn ac i sicrhau penderfyniad gwybodus a chadarn.

  Er na allai gadarnhau bod ymweliadau safle wedi'u trefnu ar gyfer yr ysgolion y cynigir eu cau, cadarnhaodd Aelod y Cabinet fod ymweliadau safle yn aml yn rhan o'r broses benderfynu.

**Penderfynwyd** y byddai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n trosglwyddo'r sylwadau / pryderon a fynegwyd i Aelod y Cabinet / yr Adran Addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

**60 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet:- Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau (y Cynghorydd Jennifer Raynor).**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, adroddiad ar y penawdau allweddol ar gyfer y portffolio Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Llygredd aer/Allyriadau o gerbydau'n teithio ac yn parcio y tu allan i ysgolion - mae contractwyr (bysus/tacsis) wedi eu hysbysu ond mae angen gwneud mwy o waith i hysbysu rhieni/gofalwyr e.e. trwy gyrff llywodraethu
- Llwybrau Mwy Diogel i'r Ysgol - bu'r diffyg diddordeb yn siomedig
- Dalgylchoedd - gallai plant sy'n mynychu ysgolion y tu allan i dalgylch achosi mwy o draffig ar y ffyrdd. Nodwyd hefyd fod rhai stadau tai lle nad oedd hi'n bosib cerdded i ysgol y dalgylch
- Gwaith y Cynllun Datblygu Lleol ac Ymgynghoriadau Statudol ar ysgolion cynaliadwy (o'r maint cywir yn y lleoliad cywir)

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif/Ariannu - argaeledd, posibiliadau a chyfrifoldeb arolygon cyflwr, penderfynu sut i ddyrannu cyllid – trafodwyd gweledEdd arolygon i ysgolion/gyrff llywodraethu
- Y sail resymegol am gau ysgolion posib a'r broses ymgynghori bresennol
- Ariannu ysgolion/cyllidebau dirprwyedig - pwysau presennol
- Gweithdrefnau ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'r sefyllfa o ran Llywodraethwyr Ysgol
- Rhaniad cyfrifoldebau cynnal a chadw rhwng ysgolion a'r cyngor
- Grant Datblygu Disgyblion - dyraniad a monitro
- Derbyniadau Ysgol / polisi a lleoliadau y tu allan i'r sir

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 61 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad.

Yn absenoldeb Cynullydd y Panel, y Cynghorydd Mo Sykes, nodwyd y diweddaraf am y Panel Craffu Perfformiad Ysgolion.

Trafodwyd cynllun gwaith y panel ar gyfer y dyfodol ac yn sgîl y drafodaeth flaenorol ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, argymhellwyd y dylai'r Panel Perfformiad Ysgolion graffu ar adroddiadau'r Cabinet sydd ar y gweill sy'n sôn am y posibilrwydd o gau ysgolion cynradd Craig-cefn-parc a Felindre cyn gwneud penderfyniad.

## 62 Adroddiad Blynyddol 2017/18 - Diogelu Corfforaethol.

Roedd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2017/2018 am Ddiogelu Corfforaethol.

Darparodd Aelod y Cabinet gefndir i'r Adroddiad Blynyddol. Rhai o'r meysydd gwaith a amlygwyd oedd: -

- Bod diogelu plant ac oedolion diamddiffyn yn flaenoriaeth corfforaethol ac yn "fusnes i bawb"
- Bod Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe wedi ei ddiweddaru er mwyn cwmpasu amrywiaeth ehangach o bryderon posib
- Bod disgwyl i swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu/ymrwymiad i ddiogelu gael eu hadlewyrchu ym mhob disgrifiad swydd
- Bod gwaith i'w wneud eto ond mae mwy o bobl wedi cwblhau hyfforddiant diogelu
- Cynnig llais diogel i bobl ym mhob agwedd ar waith diogelu

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelod y Cabinet a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Nifer y Llywodraethwyr Ysgol sy'n ymgymryd â Hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant
- Ymdrechion i wella ar ganlyniadau arolygon staff - yn 2017 dywedodd 86.4% eu bod wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelu'r cyngor naill ar-lein neu wyneb yn wyneb
- Anawsterau wrth gadw cofnodion ar hyfforddiant yn parhau (yn sgîl systemau TG gwahanol), yn arbennig hyfforddiant wyneb yn wyneb
- Yr angen i sicrhau hyfforddiant i staff dros dro - dylai'r Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol ystyried sut mae'r awdurdod yn delio â meysydd gwasanaeth sydd o bosib â gweithlu dros dro, yn ogystal ag annog ymwybyddiaeth o ddiogelu contractwyr a darparwyr
- Nifer yr ymholiadau a'r pryderon am ddiogelu a dderbynnir a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau/ymdrin â phryderon - nodwyd nad oedd ffigurau'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer y flwyddyn flaenorol i'w gweld yn yr adroddiad ac y byddai'n rhaid eu cadarnhau
- Aseswyd yr holl bryderon yn briodol gan Weithwyr Cymdeithasol a oedd yn gallu ystyried a oedd angen ymyrryd. Rhoddwyd cyngor hefyd er mwyn cefnogi gwaith atal. Roedd y bobl a fynegodd bryderon yn ymwybodol o'r canlyniad bob amser
- Effeithiolrwydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu corfforaethol
- Cynnwys partneriaid/trydydd partïon mewn cyfrifoldebau diogelu – rôl Bwrdd Gweithredol Diogelu'r Cyhoedd mewn gweithio strategol amlasiantaeth
- Bwlio mewn ysgolion – gwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn ysgolion, hyfforddiant a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol (seiberfwlio), cynyddu ymwybyddiaeth rhieni, gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol i amddiffyn pobl, materion sy'n ymwneud â phlant diamddiffyn yn teimlo unigedd ac yn cyfathrebu â phobl ar-lein neu'n ymddiried ynddynt, cefnogaeth i blant gan gyfoedion
- Canran yr asesiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd o fewn 21 diwrnod neu lai - roedd gostyngiad bach mewn perfformiad (59.6% yn y flwyddyn ddiwethaf) ac ymdrechion i wella. Nodwyd bod tîm penodedig newydd wedi'i sefydlu i ddelio â threfniadau diogelu rhag colli rhyddid, a ddylai wneud gwahaniaeth
- Monitro absenoldebau disgyblion gan ysgolion
- Y broses ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - yn gallu bod yn rhy gymhleth/araf. Angen edrych ar amserau prosesu ac ar yr hyn y gellir ei wneud i wella'r broses pe bai angen. Y teimlad oedd y dylai pob llywodraethwr ysgol dderbyn gwiriad GDG.

**Penderfynwyd** y byddai barn y Pwyllgor ar yr adroddiad yn cael ei hystyried gan Aelod y Cabinet a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 63 Adroddiad Blynyddol Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol Craffu 2017/18.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi a'i gyflwyno i'r cyngor.

## 64 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth y paneli a’r gweithgorau craffu.

**Penderfynwyd** cytuno ar y canlynol: -

1) Gweithgor Parcio i Breswylwyr - Ychwanegu y Cynghorydd Irene Mann
2) Y Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio - Ychwanegu y Cynghorydd Susan Jones

## 65 Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2018/19.

Nododd Arweinydd y Tîm Craffu: -

- Y byddai'r sesiwn holi Aelod y Cabinet nesaf ar y Gwasanaethau Plant. Byddai'r cynghorwyr Will Evans ac Elliott King yn bresennol er mwyn ateb cwestiynau.
- Y byddai'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol am y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 12 Tachwedd 2018.
- Y byddai cyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor Craffu’r Fargen Ddinesig ar 20 Tachwedd 2018.

**Penderfynwyd** nodi Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

## 66 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu, er gwybodaeth.

Nodwyd nad oedd Aelod perthnasol y Cabinet wedi ymateb i'r llythyr a anfonwyd ar 2 Gorffennaf 2018 ynglŷn â Chydlyniant Cymunedol.

**Penderfynwyd** -

1) Nodi log y llythyrau craffu ac
2) Y dylid ceisio cael ymateb i'r llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell - Pobl ar 2 Gorffennaf 2018 ynglŷn â Chydlyniant Cymunedol.

## 67 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 68 Dyddiadau ac Amserau Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.05 pm

**Cadeirydd**